# Adborth Anffurfiol ar Ddatblgiadau Arfaethedig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

UNESCO
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
Cofrestrwyd ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2021

Dyma gyfle i ddatblygwyr arfaethedig sydd yn dymuno derbyn adborth anffurfiol ar ddatbygiadau posib o fewn neu gerllaw y Safle Treftadaeth y Byd. Mae'n gyfle i drafod syniadau gyda swyddogion a chynrychiolwyr yn ymwneud a rheolaeth a datblygiad y Safle Treftadaeth y Byd mewn dull anffurfiol, cyn y broses cyn-ymgeisio gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol. Fe fydd y trafodaethau yma yn cynnwys cynrychiolwyr o gefndiroedd cynllunio, cadwraeth, datblygu'r economi ac ymgysylltu cymunedol.

Pan yn datblygu syniad, meddyliwch sut mae'n cyfrannu i weledigaeth y Safle Treftadaeth y Byd:

***Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol***

A sut medrwch chi ein cynorthwyo i wireddu amcanion y dynodiad:

- ***Economi rhanbarthol ffyniannus***
- ***Cymunedau hyfyw a byw yn falch o'u cymuned a'u treftadaeth***
- ***Cyflogaeth medrus o ansawdd uchel***
- ***Sector twristiaeth gwerth uchel, trwy'r flwyddyn***
- ***Parhad y diwydiant llechi***
- ***Tirwedd gynaliadwy a byw***
- ***Dathlu rôl ein treftadaeth llechi yn y byd***
- ***Diogelu a gwella treftadaeth ffisegol***

**Y bwriad yw fod yr adborth yma yn ychwanegu gwerth i'r broses cyn-ymgeisio, nid yw i gael ei ddefnyddio mewn lle unrhyw fecanwaith cynllunio ffurfiol sydd eisoes yn bodoli**

Dylai'r broses cyn-ymgeisio ddilyn yr adborth anffurfiol yma, cliciwch isod i gyrraedd tudalen cyn-ymgeisio yr Awdurdod Cynllunio perthnasol:

**Cyngor Gwynedd** **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## Pwy ddylai drafod gyda ni

- nid ydym yn disgwyl datblygiadau raddfa fechan drafod gyda ni (e.e. estyniadau domestig o fewn gosodiad trefi/pentref)
- os ydych yn teimlo fod gan eich datblygiad y potensial i effeithio ar y Safle Treftadaeth y Byd a/neu ei osodiad (mewn modd positif neu negyddol)
- Gall swyddog cynllunio awgrymu y byddai'n ddefnyddiol i chi gysylltu a ni
- Gall datblygwyr neu asianatau gysylltu a ni

## Pryd dylid trafod gyda ni

- mae'n bwysig i'r trafodaethau anffurfiol yma ddigwydd cyn i'ch datblygiad fynd i mewn i'r broses cynllunio ffurfiol (cyn y broses cyn-ymgeisio).
- Unwaith mae eich datblygiad yn y system gynllunio, fe fydd y swyddogion oedd yn medru cynnig adborth anffurfiol trwy'r broses yma bellach yn ymgyngoreion ffurfiol ac o ganlyniad methu cynnig adborth yn y modd yma

## Sut i drafod gyda ni

- cysylltu gyda llechi@gwynedd.llyw.cymru
- gyrru dogfen trosolwg yn nodi unrhyw wybodaeth all fod yn ddefnyddiol i hwyluso trafodaeth (e.e. lleoliad, maint, disgrifiad, deunyddiau adeiladu, pwrpas y datblygiad, sut mae'n cyfrannu i'r weledigaeth ac amcanion)
- Mynychu cyfarfod gyda swyddogion a chynrychiolwyr i drafod y syniad a derbyn adborth anffurfiol

## Beth i drafod gyda ni

- Nid maint / gwerth y datblygiad sydd yn bwysig, ond yr effaith posib ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad.
- Syniadau cychwynnol / cysyniadol yn unig
- cyfle i sgôpio syniadau
- mae'n broses anffurfiol a dewisiol, bwriadir i'r broses fod yn galluogi trafodaeth yn hytrach na chreu rhwystr

## Gwybodaeth defnyddiol:

- Canllaw Cynllunio Atodol Tirwedd Lechi
- Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth
- Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd
- Rôl Cadw mewn ceisiadau cynllunio

## Gwefannau defnyddiol:

- Safle Treftdaeth y Byd Llechi Cymru
- Cynllunio Cyngor Gwynedd
- Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Gwasanaeth Cynllunio Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD

Mehefin 2023